# Codi ymwybyddiaeth o reoli risg mewn sefydliad

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o reoli risg mewn sefydliad. Mae'n cynnwys datblygu cynllun hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o reoli risg yn unol ag anghenion eich sefydliad, gan hyrwyddo manteision rheoli risgiau. Mae'r safon yn cynnwys darparu hyfforddiant, penodi hyrwyddwyr rheoli risg, cymorth a chyngor a gwneud yn siŵr bod prosesau rheoli risg wedi'u hymgorffori yn rhan o swyddogaethau'r sefydliad. Mae ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes rheoli risg ac eraill sy'n gyfrifol am godi ymwybyddiaeth o reoli risg.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. hyrwyddo a chyfleu manteision rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau eich sefydliad
2. asesu ymwybyddiaeth o reoli risg ymhlith y gweithwyr
3. datblygu cynllun hyfforddi rheoli risg yn unol ag anghenion gweithwyr a'ch sefydliad
4. datblygu cynllun ymwybyddiaeth o reoli risg sy'n ategu ac yn cynorthwyo anghenion hyfforddi gweithwyr a'r sefydliad
5. nodi hyrwyddwyr rheoli risg i gyfathrebu’r wybodaeth am risg, hyrwyddo cydymffurfiaeth ac adrodd ar feysydd y mae angen eu gwella
6. trefnu hyfforddiant, cymorth a chyngor ar reoli risg i weithwyr yn unol ag anghenion a chynllun ymwybyddiaeth a nodwyd
7. cadw golwg ar yr arferion gorau ym maes rheoli risg i barhau i ddatblygu arbenigedd personol a chorfforaethol
8. gwerthuso effeithiolrwydd eich ymwybyddiaeth o reoli risg a hyfforddiant perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. nodau, amcanion a chynlluniau busnes eich sefydliad
2. strwythur eich sefydliad a'i gynhyrchion a'i wasanaethau
3. diwylliant eich sefydliad a chwmpas y risgiau sy'n gysylltiedig ag ef
4. y gofynion a'r safonau cyfreithiol a rheoliadol cyfredol sy'n berthnasol i reoli risg
5. egwyddorion llywodraethu da, cyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol, ac arferion moesegol sy'n berthnasol i reoli risg
6. cysyniadau rheoli risg ac ymwybyddiaeth o risg
7. sut mae prosesau rheoli risg yn gysylltiedig â chynllunio busnes, pennu cyllidebau a gwneud penderfyniadau
8. sut i asesu cwmpas ymwybyddiaeth o reoli risg
9. yr hyn sydd wedi’i gynnwys mewn hyfforddiant a chynllun ymwybyddiaeth o reoli risg a sut i fesur eu heffeithiolrwydd
10. pwysigrwydd ymgorffori ymwybyddiaeth o risg ar draws eich sefydliad a dulliau o gyflawni hyn
11. y mathau o rolau a chyfrifoldebau y gallai hyrwyddwyr rheoli risg fod yn meddu arnynt yn y sefydliad
12. sut i gyfleu manteision rheoli risg ar draws eich sefydliad
13. sut i gyfleu'r amrywiaeth o risgiau i weithgareddau eich sefydliad
14. y mathau o hyfforddiant, cymorth a chyngor y gallai fod eu hangen a'r dulliau y gellir eu defnyddio i'w cyflwyno
15. ffynonellau'r wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau ym maes rheoli risg

Codi ymwybyddiaeth o reoli risg mewn sefydliad

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Instructus |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | CFARMA003 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ymgynghorwyr rheoli a dadansoddwyr busnes, Gweithwyr proffesiynol cyswllt a busnes n.e.c |
| **Cyfres/Set** | Rheoli Risg |
| **Geiriau Allweddol** | Strategaeth rheoli risg; strategaeth sefydliadol; cynllun busnes; parodrwydd i dderbyn risg; agwedd at risg; ffactorau risg; diwylliant risg; amcanion rheoli risg |